# COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

## BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET

## 2 CHWEFROR 2024

**Aelodau'r Cabinet:**

Y Cynghorwyr: S Harris, A Llewelyn a C Phillips

**Swyddogion yn Bresennol:**

A Jarrett, A Thomas, D Jones, N Jones, A Thomas a J Woodman-Ralph

**Aelodau Craffu**

Cynghorwyr: C Galsworthy a H C Clarke

---

### 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Hale yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

### 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

### 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

### 4. BLAENRAGLEN WAITH 23/24

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

### 5. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

### 6. BWRIAD STRATEGOL DIOGELWCH CYMUNEDOL

**Penderfyniad:**

- Bod Bwrdd y Cabinet yn cymeradwyo cynnwys y Ddogfen Bwriad Strategol.
- Bod Bwrdd y Cabinet yn rhoi awdurdod dirprwyedig i awduron yr adroddiad hwn i roi'r Ddogfen Bwriad Strategol ar waith a'i chyhoeddi.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig**

I sicrhau cydymffurfiad y Cyngor â'r dyletswyddau o dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024.

## 7. CANIATÂD I YMGYNGHORI AR YR ADOLYGIAD O WASANAETHAU LLETY BRYS TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL A GOMISIYNW

**Penderfyniad:**

- Bod aelodau'n cymeradwyo ymgynghoriad 90 niwrnod ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn cael adborth am y ddarpariaeth bresennol a'r cynnig i ailfodelu gwasanaethau llety VAWDASV.
- Bod swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r argymhellion ar gyfer ail-gomisiynu gwasanaethau llety VAWDASV yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol wedi'u llywio gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys pobl y gall fod ganddynt brofiad o ddefnyddio gwasanaethau VAWDASV.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

## 10. TREFNIADAU CYTUNDEBOL GYDA THE HOLLINS

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

## 11. Y GWASANAETH ADNEWYDDU AC ADDASU TAI YN AD-DALU ARIAN Y GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL

**Penderfyniad:**

Bod yr arian grant o £16,879.54 yn cael ei hepgor am y rhesymau a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Gwnaed y penderfyniad arfaethedig er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn arfer ei ddisgresiwn o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996: Grant Cyfleusterau i'r Anabl (amodau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu dalu'r grant) - Caniatâd Cyffredinol 2008.

**Rhoi'r Penderfyniad Arfaethedig Ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024.

## 12. ADOLYGU FFIOEDD CLEIENTIAID I SICRHAU ANSAWDD A GWASANAETHAU TECHNOLEG GYNORTHWYOL GYNALIADWY

**Penderfyniad**

Cytunwyd mai opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffefrir, fel a fanylwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024.

## 13. CYTUNDEBAU ENWEBU AR GYFER LLETY DROS DRO'R SECTOR PREIFAT

Yn dilyn cynnig Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol, a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn, roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r ychwanegiad at yr argymhelliad, fel y nodir isod:

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod y Cyngor yn cytuno i uchafswm o bum cytundeb enwebu gyda D2 Prop Co ar gyfer darparu hyd at bum eiddo ar gyfer llety dros dro, yn amodol ar swyddogion yn dod yn ôl i Fwrdd y Cabinet gyda phapur cyn llofnodi unrhyw un o'r contractau unigol.

14. **CANIATÂD I YMGYNGHORI AR YR ADOLYGIAD O WASANAETHAU LLETY BRYS TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL A GOMISIYNWYD - ATODIAD 1 (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 15)**

Y rhain oedd yr atodiadau preifat mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr agenda, Caniatâd i Ymgynghori ar yr adolygiad o Wasanaethau Llety Brys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac ni chawsant eu trafod yn y cyfarfod.

**CADEIRYDD**